Mae 40 o Ysgoloriaethau Uwchraddedig ar gael yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes (YRhB) ar gyfer mynediad ym mis Medi 2010

1. Gwerth Dyfarniadau / Ysgoloriaethau'r YRhB

10 o Ddyfarniadau Rheoli'r YRhB (hyd at £2000 yr un)
10 o Ddyfarniadau Meistr Arbenigol yr YRhB (hyd at £2,000 yr un)
20 o Ysgoloriaethau Llysgennad MBA (hyd at 3,000 yr un)

2. **Cymhwyster** : Dylai pob ymgeisydd (gan gynnwys myfyrwyr tramor a myfyrwyr o'r UE/DU) fod â chymhwyster Rhaglen Meistr trwy Gwrs yr YRhB. Gall ymgeiswyr presennol a rhai sydd wedi gohirio mynediad gael eu hystyried ar gyfer y dyfarniadau, os ydynt yn cyflwyno'r wybodaeth a nodir ym mhwynt 5.

3. Meini Prawf: Rhagoriaeth Academaidd
Sylwer: Ar gyfer ymgeiswyr hŷn neu ymgeiswyr heb radd, efallai yr ystyrir eu cyfraniad yn y byd proffesiynol a'r byd busnes.

4. Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau: 30 Ebrill, 2010. Caiff y dyfarniadau eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mai 2010.

Sylwer: Mae'r Ysgol yn cadw'r hawl i beidio â chynnig yr holl ddyfarniadau neu i beidio â chynnig unrhyw un ohonynt, yn amodol ar safon y ceisiadau a ddaeth i law. Caiff yr ysgoloriaethau eu tynnu o'r ffioedd dysgu cyhoeddedig ar gyfer mynediad yn 2010. Ni ellir gohirio'r cynnig na'r dyfarniad er mwyn cofrestru yn ddiweddarach. Ni ellir cyfuno Ysgoloriaethau'r YRhB ag unrhyw Ddyfarniadau/ Ysgoloriaethau eraill a gynigir gan Brifysgol Aberystwyth.

5. Trefn gwneud cais:

Ymgeiswyr Newydd: Yn ogystal â'r dogfennau y mae'r Swyddfa Derbyn Graddedigion eu hangen, mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer unrhyw un o'r dyfarniadau neu'r ysgoloriaethau gwblhau traethawd ar brosesydd geiriau ar **un** o'r pynciau isod:

Ar gyfer Dyfarniadau Rheoli'r YRhB: Traethawd **1,000 o eiriau** sy'n pwyso a mesur eich profiad dysgu blaenorol (a phrofiad gwaith os yw'n berthnasol) ym maes rheoli, a sut ydych chi'n meddwl y bydd y cwrs uwchraddedig hwn yn cyfrannu at eich gyrfa a'ch datblygiad personol.

Ar gyfer Dyfarniadau Meistr Arbenigol yr YRhB (Marchnata Uwch): Traethawd academaidd **3,000 o eiriau** sy'n trafod damcaniaeth Marchnata, maes cyfoes iawn.

Ar gyfer Dyfarniadau Meistr Arbenigol yr YRhB (Cyfrifeg a Chyllid neu Gyllid Rhyngwladol): Traethawd **1,000 o eiriau** sy'n pwyso a mesur eich profiadau dysgu blaenorol (a phrofiad gwaith, os yw'n berthnasol) ym maes Cyfrifeg a Chyllid, a sut

ydych chi'n meddwl y bydd y cwrs arbenigol hwn yn cyfrannu at eich gyrfa a'ch datblygiad personol.

Ar gyfer Ysgoloriaethau Llysgennad MBA: Traethawd **1,000 o eiriau sy'n pwyso a mesur** her neu fater sy'n ymwneud â Rheoli (neu fusnes) yr ydych chi wedi'i brofi'n bersonol yn eich swydd bresennol neu mewn swydd flaenorol, a sut yr ydych yn meddwl bydd yr MBA yn cyfrannu at eich gyrfa a'ch datblygiad personol.

Ymgeiswyr Presennol (neu ymgeiswyr sydd wedi gohirio mynediad): Gan ddilyn yr un canllawiau a nodwyd uchod, anfonwch eich traethawd wedi'i deipio yn uniongyrchol i'r Ysgol Rheolaeth a Busnes, gan nodi eich enw, y cwrs yr ydych wedi cael eich derbyn arno, a'ch rhif cyfeirnod. Gallwch e-bostio'r traethawd at Ms Sarah Norrington-Davies (sgh@aber.ac.uk). Yr un yw'r dyddiad cau, sef 30 Ebrill, 2010.